Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 01-12-20 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), John Emlyn Jones, Ceri Leeder, Wendy Williams, John Lloyd Williams, Arthur Williams, Gwenan Roberts, Austin Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Geraint Owen |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Cyng Wendy yn datgan diddordeb – swydd wag y cyngor.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (03/11/20).

   Cynigwyd cofnodion 03/11/20 yn gywir gan Cyng John Lloyd ac eiliwyd gan Cyng Arthur.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Swydd Wag ar y Cyngor*:***

     Dau aelod o'r gymuned wedi ymgeisio a cafwyd pleidlais.  Gwyn Jones yn cael ei ethol yn gynghorydd newydd.

   - **Llwybrau – Bryn Hir*:***

     - Codi'r Giatiau – Adroddodd Cyng Austin bod CBSC wedi gosod giatiau newydd ac yn edrych ar y ffordd orau o fedru codi'r giatiau.
     - Y Chwarel – Dywedodd Cyng Austin bod dim newid oherwydd Covid-19 ond ei fod yn dal i ddilyn y mater.
     - Y Bont wrth Ty Gwyn/Henblas – y bont wedi ei thrwsio dau fis yn ol.

   - **Nadolig y Pentref*:***

     - Cystadleuaeth ffenestr Nadolig wedi'i gwisgo orau – 2 o ymgeiswyr hyd yma.  Cyng Ceri i hysbysebu eto.

- Coeden Nadolig yn cael ei roi i'r pentref gan Bodnant eto eleni.

- **Cofeb Cerrig:**

  - Dywedodd Cyng Ceri bod costau yn cael eu edrych arnynt. Penderfynwyd rhoi yr eitem ar yr agenda nesaf.

- **Awdit 2019/20:**

  Y cyfrifon gyda'r cyfrifydd.

6. **CYNLLUNIO**

Cyfeirnod: 0/47927
Ymgeisydd: Mr and Mrs Webber
Cynllun: Estyniad unllawr arfaethedig i annedd gyda theras cyfagos
Safle: Rhiw, Ffordd Maenan, Eglwysbach LL28 5UG

Dim gwrthwynebiad.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £2,941.61
Angladdau - £290.20 – (angen talu £75.00 Carwyn Hughes gwagio trelar)
Cadw - £2,078.11

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- Russell Dowell (Hysbysfwrdd) - £45.00
- Zurich Municipal (Yswiriant) - £416.94

**Angladdau:**
- John Lloyd Williams (Secston) - £100.00

8. **GOHEBIAETH**

- E-Bost: Repair Cafe Wales Org - Cronfa Atgyweirio ac Ailddefnyddio 13.2m

  Noder er gwybodaeth.

- E-Bost: CBSC - Cronfa Ragoriaeth Conwy

  Noder er gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Beiciau a gyrru yn y pentref – y Clerc i yrru manylion y PCSO i Cyng Ceri.
- 2 feic wedi ei dwyn o Preswylfa. Cytunodd y Cynghorwyr fod angen bod yn wyliadwrus.
- Arolygydd maes chwarae – Adroddodd Cyng Ceri o'r cyfarfod. Dim adborth gan yr arolygydd yn dilyn y cyfarfod am ail atgyweiriadau a phrisiau am offer newydd. Eitem agenda mis Ionawr.
- Arwydd 'Arafu' wrth yr Hen Efail – Cyng Austin i drafod gyda ERF.
- Bryn Hir – llwybyr yn erydu rhwng y ddau bont – Adroddodd Cyng Austin bod CBSC yn gwybod am hyn
- Adroddodd Cyng John Lloyd ei fod wedi trwsio a paentio y drws yn y fynwent. Diolchodd y Cynghorwyr iddo am ei waith.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

05/01/21
02/02/21
02/03/21
06/04/21
04/05/21
01/06/20
06/07/21
07/09/21
05/10/21
02/11/21
07/12/21

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 o'r gloch.